

Rhif 361 - Beirniadaeth Barddoniaeth Blwyddyn 5 a 6

Beirniad: Ffion Gwen Williams

Daeth 153 ymgais i'r gystadleuaeth, ac er gwaetha'r testun – 'Hunllef' – profiad pleserus iawn oedd cael pori drwy bob un ohonynt. Diolch i bawb am gystadlu ac am syniadau gwreiddiol a gwahanol. Roedd cynnwys y cerddi'n rhannu'n ddau gategori, sef sefyllfaoedd real a hunllefus megis yr Holocaust, tyrchineb Aberfan a Senghenydd, boddi Capel Celyn, tanau mawr Awstralia, reid yn ffair Eisteddfod yr Urdd, crwydro plasdy Glynllifon; methu â chyrraedd gêm bêl-droed mewn pryd, ac ymweld â'r deintydd! Yn yr ail gategori, roedd oriau o droi a throsi drwy gwsg hunllefus, a phob math o ddelweddau a synau iasoer yn chwarae ar y meddwl cyn toriad y wawr.

Roedd ôl paratoi gofalus cyn cyfansoddi - geirfa gyfoethog, ansoddeiriau pwrpasol a thechnegau arddull wedi eu gwau'n effeithiol i gryfhau'r dweud. Cafwyd amrywiaeth o ran ffurf. Y mesur penrhydd oedd fwyaf poblogaidd, gyda dogn go lew o gerddi ar fydr ac odl hefyd, yn ogystal ag ambell gerdd acrostig drawiadol.

Doedd dim un ymgais sâl, ond yn amlwg, mae yna garfan sy'n cyrraedd y brig. Rhai fel BABATUNDE, Y DAWNSIWR, SŴN I GYD, HYWEL, GWYRDD, PANTGLAS, SEREN WIB ac ENFYS. Yn y trydydd safle, rwy'n gosod DONA DIREIDI am ei delweddau trawiadol ac aeddfed o drychineb Senghenydd. Yn ail, mae cerdd ROBIN GOCH am ei ddawn i ddarlunio 'bwystfil' y tanau yn Awstralia. Yn gyntaf, mae CLEOPATRA am fynd â ni ar daith drwy hunllefau'r byd a chynnig neseg bwysig i gloi – cerdd o'r galon a cherdd i'w llefaru a'i chlywed yn sicr.